**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD:** | **21 Mai 2021** |
| **LLEOLIAD:** | O bell trwy Gynhadledd Fideo |
| **TEITL:** | **Adroddiad ar Faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar newidiadau mewn deddfwriaeth ac ystyried maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

**CEFNDIR:**

Ar 2 Hydref 2019 ystyriodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor (Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach) fater maint y Pwyllgor Archwilio (cyn i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ('Deddf 2021') gael ei chyhoeddi ar ffurf Bil). Cytunodd y Pwyllgor Archwilio i argymell i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac wedi hynny i'r Cyngor gynyddu nifer y Cynghorwyr Sir ac aelodau lleyg/annibynnol sy'n eistedd ar y Pwyllgor Archwilio.

Ar 27 Ionawr 2020, ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad, lle cynigiwyd ystyried cynyddu maint y Pwyllgor.
Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymell bod y Pwyllgor yn aros ar ei faint presennol hyd nes y gweithredir Deddf 2021 a newidiadau i nifer y Cynghorwyr Sir ac i adolygu ar yr adeg briodol.

Ar 24 Chwefror 2021 cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar Ddeddf 2021 a'r newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio.
Cytunodd y Pwyllgor Archwilio mai'r opsiwn a ffefrir (Opsiwn 1 yn yr adroddiad) oedd y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol gynnwys:
cyfanswm o 9 aelod yn cynnwys:

- 3 aelod lleyg annibynnol a
- 6 Cynghorydd Sir)

Ar 18 Mawrth 2021 cyflwynwyd Adroddiad ar Ddeddf 2021 a'r newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio i'r Cyngor lle penderfynwyd cymeradwyo cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau annibynnol (lleyg) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ar 3ydd Mehefin 2021 yn ymwneud â newidiadau pellach sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n deillio o weithredu Deddf 2021.

**SEFYLLFA BRESENNOL:**

Ym mis Ionawr 2021 rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf 2021.

Mae adran 116 Deddf 2021 yn datgan bod yn rhaid i o leiaf un rhan o dair o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn lleygwyr. Daw hyn i rym ar 6/5/22.

Mae proses recriwtio aelodau lleyg ychwanegol yn mynd rhagddi.

Ni ellir cadarnhau union nifer yr aelodau ychwanegol sydd eu hangen nes bod maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei bennu.
Felly gofynnir am farn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y gellir gwneud argymhelliad ar ei faint i'r Cyngor.
Deallir bod Comisiwn Ffiniau Cymru wedi argymell yn y gorffennol y dylai nifer Aelodau cyffredinol y Cyngor ostwng o 42 i 38 o fis Mai 2022, ac y cynhelir adolygiad yn ystod 2021 ynghylch sut y bydd y newid hwn yn effeithio ar faint holl bwyllgorau'r Cyngor.

Ymhlith y ffactorau perthnasol mae:

- Y goblygiad o ran cost i'r Pwyllgor mewn cynnydd aelodau Annibynnol (lleyg);
- Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n pennu'r ffioedd a delir i aelodau Annibynnol (lleyg) ac fe'u telir ar sail hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn;
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio presennol gryn dipyn yn llai na Phwyllgorau eraill y Cyngor;
- Mae nifer fawr o adroddiadau y mae'n ofynnol i aelodau eu hystyried wedi rhoi pwysau ychwanegol ar aelodau presennol;
- Codi proffil gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Cynyddu’r ffocws ar gyfer goruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar archwilio/sicrwydd, fframwaith llywodraethu ac adrodd;
- Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ychwanegu gwerth trwy gefnogi gwelliant ar draws ystod o amcanion;
- Mae rheoleiddwyr allanol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd; a
- Gwneud y mwyaf o sylfaen wybodaeth, profiad a sgiliau'r Pwyllgor.

Cyfraddau ffioedd diwrnod llawn 2021/2022 ar gyfer aelodau lleyg annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

- Cadeirydd (os yw'n Aelod Lleyg o 6/5/22) £268 (134 Ffi hanner diwrnod)
- Ffi diwrnod llawn aelod lleyg £210 (£105 Ffi hanner Diwrnod).

.

**ARGYMHELLION:**

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried argymell i'r Cyngor:

1)Y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys o 6/5/22:
• 3 x aelod annibynnol / lleyg
• 6 x Aelod y Cyngor Sir
Cyfanswm: 9

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** Monitro llywodraethiant yr Awdurdod Lleol, ac osgoi problemau llywodraethu/gweithdrefnol ynghylch y nifer ofynnol o aelodau lleyg yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro |
| **Acronymau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 11 Mai 2021 |
| **Atodiadau:** | Dim |
| **Pwerau statudol:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/introduction/enacted/welsh |
| **Papurau cefndir:** | Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H%20size%20of%20audit%20committee.pdf<br>Cofnodion y Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H%20size%20of%20audit%20committee.pdf<br>Adroddiad 27 Ionawr 2020 i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Size%20of%20audit%20committee.pdf).<br>Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 27 Ionawr 2020: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/A%20Cofnodion%2027%20Ionawr%202020.pdf)<br>Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio 12 Tachwedd 2020: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/audit%20121120%20final%20(c).pdf).<br>Adroddiad 24 Chwefror 2021 i'r Pwyllgor Archwilio: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B%20LG%20and%20Elections%20combined%20(c).pdf<br>Cofnodion Drafft Cyfarfod 24 Chwefror 2021 y Pwyllgor Archwilio: https://www.ceredigion.gov.uk/media/8732/audit-24021-final-c.pdf).<br>Adroddiad 18 Mawrth 2021 i'r Cyngor: |

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-%20Newidiadau%20i'r%20Pwyllgor%20Archwilio%20yn%20unol%20a%20Deddf%20Llywodraeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20(Cymru)%202021.pdf
Cofnodion Drafft Cyfarfod 18 Mawrth 2021 y Cyngor:
https://www.ceredigion.gov.uk/media/8976/cofnodion-ddrafft-18032021-c.pdf).